Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

# Ymweliad ag Ysgol Nyrsio Prifysgol De Cymru

8 Rhagfyr 2022

## Cefndir

**1.** Ar 8 Rhagfyr 2022, aeth y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar ymweliad â Phrifysgol De Cymru Campws Glyntaf. Nod yr ymweliad oedd llywio gwaith cyfredol y Pwyllgor mewn perthynas â'r gweithlu iechyd a gofal, gan gynnwys y sesiwn sydd wedi'i chynllunio gyda Phrif Swyddog Nyrsio Cymru ar 26 Ionawr 2023.

**2.** Yn ystod yr ymweliad, aeth yr Aelodau ar daith o amgylch cyfleusterau efelychu clinigol a gwneud penderfyniadau mewn digwyddiadau critigol Hydra, a chwrdd ag academyddion, myfyrwyr a staff addysgu. Mae'r nodyn hwn yn amlygu materion a themâu allweddol a drafodwyd yn ystod yr ymweliad.

## Cyfleusterau efelychu clinigol gwneud penderfyniadau mewn digwyddiadau critigol Hydra

**3.** Mae'r cyfleusterau'n cynnwys amrywiaeth o leoliadau wedi'u hail-greu, gan gynnwys wardiau, uned gofal dwys, mamolaeth, ambiwlans, practis meddyg teulu, fflat domestig (sy'n caniatáu efelychu asesiadau ar gyfer gweithgareddau bywyd bob dydd a diogelu), a'r cyfleuster gwneud penderfyniadau mewn digwyddiadau critigol Hydra.

**4.** Mae efelychiad yn galluogi rhywfaint o ymgyfarwyddo mewn gofod clinigol diogel cyn mynd ar leoliadau clinigol. Lle bo'n bosibl, mae hyn yn cynnwys cyfleoedd i ddefnyddio ystafelloedd dosbarth a gofodau amlddisgyblaethol i gynnwys nifer o weithwyr proffesiynol mewn hyfforddiant ar y cyd, gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol, seicolegwyr a'r heddlu.

**5.** Mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth wedi caniatáu cynnydd mewn oriau hyfforddi drwy efelychu (fel rhan o'r gofynion oriau hyfforddi cyffredinol), a hynny o 300 i 600.

**6.** Gellir defnyddio'r cyfleusterau ar gyfer hyfforddiant cyn ac ar ôl cofrestru.

**7.** Mae Prifysgol De Cymru yn sefydlu cyfleuster hyfforddi newydd yn rhywle arall yn ardal Rhondda Cynon Taf, ond mae'n gobeithio cadw'r cyfleuster presennol hefyd os yw'n bosibl. Mae ganddi gysylltiadau cryf â Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

**8.** Mae'r posibilrwydd o efelychiadau clinigol rhith-realiti i wella hyblygrwydd a dyfnder y dysgu sydd ar gael i fyfyrwyr yn rhywbeth sy'n cael ei ystyried.

## Academyddion

**9.** Cyfarfu'r Pwyllgor ag academyddion sy'n gweithio ar amrywiaeth o brosiectau a meysydd ymchwil yng Nghanolfan PRIME Cymru (Canolfan Cymru argyfer Ymchwil Gofal Sylfaenol a Gofal Brys), gan gynnwys Offeryn Asesu Gwrthwynebiad y Teulu (FRAIT); gwasanaethau anabledd dysgu; gofal ysbrydol mewn nyrsio; trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol; integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol; gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol; gofal sy'n seiliedig ar werth; rhwydweithiau gofal sylfaenol; a gwerthuso cyllid trawsnewid.

**10.** Mae hyfforddiant yn creu amgylchedd diogel i ddechrau, ond gall realiti gwaith gofal fod yn llawer mwy anodd, ac mae'r lle i feddwl yn greadigol yn llawer mwy cyfyngedig.

**11.** Cwestiwn ynghylch a yw gwasanaethau gofal lleol yn gallu cael staff a'u cyrchu o'r boblogaeth leol. Rydym yn chwilio am nifer fawr o bobl i weithio mewn gwasanaethau iechyd a gofal lleol; efallai bod angen i ni edrych hefyd ar ffyrdd gwell neu wahanol o drefnu neu ddarparu gofal sydd o bosibl yn adlewyrchu gweithlu llai.

**12.** Mae angen adeiladu cymuned o ymarfer fel nad ydym wastad yn ail-ddysgu gwersi. Mae Cymru wedi cael cyfle i ehangu arfer newydd a gorau, ond nid ydym wedi gwireddu hynny – mae problem o ran gweithredu.

**13.** Mae cyllid ar gyfer trawsnewid yn mynd yn sownd mewn cyllid craidd a dylai hyn ymwneud â thrawsnewid blaengar, nid 'mwy o'r un peth'.

**14.** Mae cynlluniau tymor byr yn golygu ein bod yn cyflogi ac yn ailgyflogi staff o hyd.

**15.** Mae angen gwreiddio rhagnodi cymdeithasol, ond mae hefyd angen annog proffesiynau i feddwl mwy am atal problemau.

**16.** Mae angen rhannu data yn well, sy'n fater o dechnoleg well ac ymddiriedaeth. Efallai bod achos dros roi sylw ar gleifion mwy cymhleth i ddechrau.

## Myfyrwyr

### Cyrsiau a gomisiynir (gan gynnwys nyrsio, bydwreigiaeth a therapi galwedigaethol)

**17.** Pwysau ariannol gwirioneddol: nid yw'r bwrsari yn talu am ddigon, gan gynnwys 365 diwrnod neu deithio ar gyfer lleoliadau. Ond ni fyddai llawer o fyfyrwyr yn gallu gwneud y cwrs pe na bai bwrsari. Gall fod effaith ar yr hawl i fudd-daliadau.

**18.** Cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith: mae llawer o bwysau, gan gynnwys gwaith cwrs a lleoliadau clinigol. Mae pwysau ar y ward na ddylech chi orfod delio â nhw fel myfyriwr – gall hyn achosi straen.

**19.** Ar gyfer rhai cyrsiau, mae rhai pobl yn gwneud ail radd (42 yw'r oedran cyfartalog ar gwrs therapi galwedigaethol, ond mae'n llawer is yn achos nyrsio).

**20.** Iechyd/gofal cymdeithasol fel gyrfaoedd: nid oedd rhai ysgolion yn gwybod llawer neu ddigon am y gyrfaoedd hyn – nid oes gwybodaeth na dysgu go iawn ar gael. Hefyd, efallai na fydd gan bobl y dewis oherwydd pwysau ariannol a ffordd o fyw – mae angen cymhellion. Ni fydd y sylw yn y cyfryngau am bwysau ar wasanaethau a streiciau yn helpu gyda recriwtio ychwaith.

**21.** Rhesymau pam mae myfyrwyr yn gadael: gofynion gwaith cwrs, lleoliadau clinigol, cydbwysedd gwaith a bywyd, diffyg cymorth. Mae diffyg cymorth hygyrch y tu hwnt i 9-5, ac nid oes cyfle am ôl-drafodaeth yn achos digwyddiadau/problemau llai. Soniodd un myfyriwr am bwysau aruthrol ar un shifft "a chymryd 20 munud i grio, ond prin iawn yw'r cyfleoedd hynny". Caiff gwydnwch ei gymryd yn ganiataol, ond nid yw bob amser yn hawdd ei gadw.

### Cyrsiau nad ydynt wedi'u comisiynu (gan gynnwys Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant Cymunedol, Astudiaethau Plentyndod)

**22.** Gweithio fel Band 2, gobeithio am Fand 4 (cael eu talu llai na'r rôl maen nhw'n gweithio ati). Eisiau symud ymlaen (diwedd oes, nyrs dementia, neu ofal clwyfau), ond yn poeni am ochr fwy academaidd hyfforddiant.

**23.** Effaith gweithio mewn cartref gofal yn ystod COVID – cartref wedi colli 22 o breswylwyr.

**24.** "Mae rhai pobl yn meddwl bod gofal yn hawdd" ond nid ydynt yn gweld yr ochr o ofal sylfaenol nyrsio sy'n achosi mwy o straen ac sy'n fwy corfforol. "Mae myfyrwyr newydd yn ifanc iawn, ac yn aml dydyn nhw ddim yn sylweddoli beth mae'n ei olygu". "Mae'r hyn rydych chi'n ei

glywed a'r hyn rydych chi'n ei wneud yn eithaf gwahanol". Dylai cyrsiau gynnwys amser mewn cartref gofal.

**25.** Mae gofal iechyd yn heriol a "dylech ei wneud yn llawn brwdfrydedd". Gall fod yn ymarferol iawn, ac nid yw pawb yn barod ar gyfer hyn. Mae angen llawer o amynedd, mae'n eich llesteirio'n feddyliol ac mae angen i gyrsiau ddangos hyn yn fwy.

## Staff addysgu

**26.** Cymorth ar gyfer lleoliadau mewn cartrefi gofal, gan fod myfyrwyr sydd wedi gweithio mewn lleoliadau o'r fath yn synnu braidd gyda'r ystod o sgiliau sydd eu hangen i weithio gyda'r lefel hon o annibyniaeth.

**27.** Mae'r heriau mwyaf i fyfyrwyr yn cynnwys amodau gwaith caled – mae rhai myfyrwyr yn gadael gan nad ydynt yn gallu ymdopi â hyn. Nid oes llawer o amser i oedi a myfyrio.

**28.** Nid yw myfyrwyr nad ydynt yn rhai nyrsio yn cael bwrsari.

**29.** Mae lleoliadau clinigol cyfyngedig ar gael i Gynorthwywyr Adrannau Llawdriniaeth yng Nghymru. Mae lleoliad clinigol ffisiotherapi yn 33% o gwrs, ac mae'n 50% ar rai eraill.

**30.** Mae'n bwysig bod addysg ryngbroffesiynol yn cael ei chynnwys mewn cyrsiau (tua 20% o gyrsiau ar hyn o bryd). Cefnogaeth frwd i rôl yr Hwylusydd Addysg Ymarfer – mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu un ar gyfer pob BILl ond dim ond Cwm Taf Morgannwg sydd wedi penodi hyd yma. Tri diwrnod yr wythnos i gefnogi lleoliadau myfyrwyr.